| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU** |
| **DYDDIAD** | **4 Tachwedd 2021** |
| **TEITL** | **CYFLWYNO DRAFFT CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd. Gareth W Griffith** |
| **AWDUR** | **Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd** |
| **PWRPAS** | **Derbyn adborth a sylwadau'r Pwyllgor Craffu ar ddrafft terfynol o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a chymeradwyo'i defnydd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Cyflwynwyd fersiwn drafft o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) i gyfarfod y Pwyllgor Craffu ar y 25ain o Chwefror 2021. Penderfyniad y Pwyllgor oedd :

- Derbyn y cynllun drafft gan nodi'r sylwadau a wnaed yn ystod y cyfarfod i'w hymgorffori yn y ddogfen er ymgynghoriad cyhoeddus.
- Bod y fersiwn terfynol yn cael ei gyflwyno gerbron y pwyllgor yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

1.2 Yn dilyn y Pwyllgor ymgysylltwyd a chynrychiolwyr y Fforymau Mynediad i dderbyn eu sylwadau ar y cynllun drafft. Yn dilyn y cyfarfodydd hyn a sylwadau'r Pwyllgor Craffu addaswyd y ddogfen gyda'r bwriad y byddai'n mynd allan am ymgynghoriad cyhoeddus cyn y cyfarfod yma o'r Pwyllgor Craffu.

1.3 Dylid nodi bod disgwyl i Awdurdod Lleol roi lleiafswm o 12 wythnos ar gyfer ymgynghori ar y CGHT drafft. Yn anffodus oherwydd pwysau a lleihad mewn capasiti yn y Gwasanaeth Cefn Gwlad dros fisoedd yr haf nid oedd posibl paratoi drafft terfynol a'i roi allan i ymgynghoriad cyhoeddus ynghyd a dadansoddi ymateb cyn dyddiad y cyfarfod yma.

Mae'n ddrwg gennyf orfod adrodd fod yr amserlen wedi llithro unwaith yn rhagor.

## 2. DIWEDDARIAD

2.1 Mae'r fersiwn ger bron y Pwyllgor yn cynnwys addasiadau ac ychwanegiadau a heblaw am ambell newid pwyslais mae cyfeiriad y Camau Gweithredu wedi aros fel yr oeddynt. Mae'r prif newidiadau yn cael eu nodi yng nghorff y ddogfen.

2.2 Er yr oedi mae'r CGHT yn cael ei baratoi ar adeg o newid ym maes gwaith mynediad i gefn gwlad a chredaf fod yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor cael trosolwg o'r newidiadau.

2.3 **Rhaglen Ddiwygio Mynediad:** Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Llywodraeth wedi sefydlu'r Rhaglen i ystyried newidiadau i ddeddfwriaeth mynediad, rhoddir sylw i'r meysydd canlynol:

- Cynyddu'r amrediad o weithgareddau a ganiateir o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a chreu tir mynediad newydd mewn ardaloedd arfordirol
- Cynyddu amrediad o weithgareddau y gall y cyhoedd eu cyflawni, drwy hawl, ar lwybrau cyhoeddus (caniau beicio a marchogaeth ar lwybrau troed), gwella prosesau a lleihau pwysau gweithdrefnol sydd ynghlwm wrth reoli gwyro hawliau tramwy dros dro, eu cau am gyfnodau byr, a chynnal gwaith rheoli stoc arnynt.
- Gwella'r broses o greu, storio a chyfathrebu mapiau mynediad statudol.
- Rôl a gweinyddiaeth Fforymau Mynediad Lleol
- Rheoli cŵn yng nghefn gwlad.

2.4 Nid yw argymhellion yn tarddu o'r gwaith wedi eu gwneud yn gyhoeddus a does dim arweiniad clir wedi dod o Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r ffordd ymlaen . Serch hynny ni ddylid diystyru effeithiau pellgyrhaeddol all godi yn sgil y Rhaglen Diwygio Mynediad.

2.5 **Yr economi ymweld:** Mae hawliau tramwy sy'n caniatáu mynediad i ucheldir ac arfordir wedi bod yn allweddol i dwf y sector twristiaeth yng Ngwynedd ac mae'n sicr bydd yn chwarae rhan bwysig yn y dyfodol wrth i'r Cyngor ystyried egwyddorion economi ymweld cynaliadwy.

2.6 Mae dynodiad Safle Treftadaeth y Byd Tirlun Llechi yn debygol o ddod a chyfleoedd i ddatblygu mynediad yn yr ardaloedd yma ond gellir gweld heriau hefyd er enghraifft sicrhau cydbwysedd rhwng mynediad a diogelu nodweddion treftadaeth.

2.7 **Adnoddau :** Mae rhan 2.6 o'r cynllun drafft yn trafod adnoddau a'r pwysau cynyddol ar y Gwasanaeth Cefn Gwlad i gynnal isadeiledd hawliau tramwy a phrosesu gorchmynion. Er bod sefyllfa o ran y cyllidebau craidd yn parhau'n anodd gwelwyd cynnydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf mewn argaeledd grantiau , yn bennaf gan Lywodraeth Cymru .

2.8 Am y blynyddoedd 20/ 21 a 21 / 22 derbyniwyd yn agos i £400k ar gyfer gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy a swm cyffelyb uwchraddio'r Lonydd Glas.

2.9 Y rhagdybiaeth ydi bydd y grantiau yn parhau am y blynyddoedd nesaf sy'n codi cwestiwn ynglŷn â capasiti presennol y Gwasanaeth i fanteisio a gwneud y defnydd gorau o'r grantiau gan ystyried bod swyddogion hawliau tramwy hefyd yn ymateb i faterion dydd i ddydd.

**3. ARGYMHELLIAD**

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Cymuned i gynnig sylwadau ar ddrafft terfynol y ddogfen Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ac yn amodol ar ymgorffori'r sylwadau pellach i awdurdodi'r Adran Amgylchedd i'w defnyddio i bwrpas ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd yr Adran yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

---

**ATODIADAU**

Atodiad 1: Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Gwynedd (drafft terfynol )